

Cyfarfod Blynyddol 8^{fed} o Fai 2013

Cadeirydd: W D Williams

Preseanol: Y Cadeirydd, Linda Morris (Is-gadeirydd), Olwen Jones, John Morris, Gwyn Roberts, Alan Evans (Cynghorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Emyr Jones, Eleri Jones

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2012
- 2 Etholwyd Linda Morris yn Gadeirydd
- 3 Etholwyd Olwen Jones yn Is-gadeirydd
- 4 Penodwyd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc fel aelodau'r is bwyllgor Cyllid
- 5 Penodwyd John Morris i fod yn Gyd-gysylltydd i'r mynwentydd
- 6 Enwebwyd Dafydd Williams fel cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru
- 7 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd
- 8 Enwebwyd Dafydd Williams a Gwyn Roberts i gynrychioli'r Cyngor ar Bartneriaeth Penllyn, gyda Linda Morris wrth gefn.
- 9 Cadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor (sy'n cynnwys Côd ymddygiad yr aelodau)
- 10 Mabwysiadwyd Polisi Iaith y Cyngor (*Rhif 31 yn y Rheolau Sefydlog*)
- 11 Mabwysiadwyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor Cymuned
- 12 Mabwysiadwyd Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor
- 13 Mabwysiadwyd Trefn Cwynion y Cyngor
- 14 Cadarnhawyd y Rheoliadau Cyllidol a'r Asesiad Risgiau Cyllidol
- 15 Adolygu rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor. Nodwyd fod Coed yr Allt yn perthyn i'r Cyngor ac mai tir comin i'w reoli gan y Cyngor yw Garth Goch a gwaelod y mynydd uwch ben Pentre Piod.
- 16 Adolygwyd a chadarnhau'r trefniadau yswiriant (yr is-bwyllgor Cyllid i gadarnhau'r Cwmni a ddewisir)
- 17 Cadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol ar gyfer yr Archwilwyr
- 18 Derbyniwyd trefn cofnodi buddiant personol mewn Cofrestr
- 19 Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfodydd 2013-14, sef yr ail nos Lun bob yn ail fis (Gorffennaf / Medi / Tachwedd / Ionawr / Mawrth)